**EDGAR PRITCHARD ar drywydd . . .**

# Croes Nawdd Tywysogion Gwynedd

Mae'r Llywodraeth wedi cydnabod yr Alban yn genedl gan iddynt ganiatáu dychwelyd y garreg o Scone a ddefnyddid gynt i goroni brenhinoedd yr Alban yn ôl i'r Albanwyr ar ôl saith canrif, ac felly yn cydnabod eu hetifeddiaeth a'u hawliau i senedd a llywodraeth gyflawn.

Saith canrif yn ôl hefyd, ar y pumed ar hugain o Fehefin 1283, meddiannodd Edward y Cyntaf un o drysorau gwerthfawrocaf y Cymry, sef croes nawdd tywysogion Gwynedd, pan anafwyd Llywelyn ap Gruffudd, Tywysog Cymru, yn angheuol yng Nghilmeri ar y degfed o Ragfyr 1282; bu farw'r diwrnod canlynol, dydd Gwener.


Dengys y darlun y Groes Nawdd oedd wedi'i gwneud o aur ac wedi ei harddu â pherlau a meini gwerthfawr; hwn oedd crair gwerthfawrocaf tywysogion Gwynedd ac fe'i gwisgid ar amgylchiadau arbennig gan y Tywysog. Fe ddywedir i Edward y Cyntaf fod â'i fryd arno pan gyfarfu â Llywelyn ap Gruffudd ar amgylchiad gwleidyddol yn Rhyd Chwima, sir Drefaldwyn, yn 1267.

Ar y chwith i'r groes mae'r blwch pren sanctaidd y cedwid y groes nawdd ynddo ac a wnaed o ddarn o groes Crist a'i gludo i Gymru gan sant o'r enw Neot, ond dywed rhai llyfrau mai ymdrech y Saeson i gysylltu unrhyw sant â'r gair Nawdd oedd hyn.

Ar y pedwerydd o Fai 1284 rhoddwyd y blwch sanctaidd hwn *(reliquary)* yn unig gan Edward y Cyntaf yn anrheg i fynachod St Helen's, Bishop's Gate, Llundain, ond cadwodd Edward y groes berlog iddo'i hun fel trysor personol. Yn 1303 torrwyd i mewn gan ladron i hen gapel Normanaidd *(PIX)* yn Llundain — hwn oedd trysordy brenhinol Lloegr bryd hynny — ac fe ladratawyd llawer o drysorau'r frenhiniaeth, ond nid oedd unrhyw sicrwydd i'r groes nawdd fod yn eu plith.

Ar y dde i'r groes nawdd, wedi ei hamgylchynu, oherwydd nid oes i hwn 'chwaith gysylltiad â Chymru, mae safiad a wnaed ar orchymyn Edward y Trydydd yn 1353 i'w eurof, Richard de Grimsby, a chrefftwyr eraill o'r cyfandir, i arddangos y groes nawdd berlog. Roedd y groes, felly, yn dal i fod yn nhrysordy'r frenhiniaeth yn Llundain ac, yn dilyn hyn, fe gyflogwyd dau swyddog diogelwch, John Lauskyne a Nickolas Lumbard, i ofalu am y trysorau. Ni wnaed unrhyw newidiad i'r groes ond ei glanhau.

Yn 1534 roedd Lloegr o dan frenhiniaeth Harri'r Wythfed, un o ddisgynyddion Harri Tudur,




*Croes Nawdd Tywysogion Gwynedd a Chymru.*

Plas Penmynydd, Ynys Môn.

Roedd y groes nawdd yn ôl yng nghapel San Siôr yn Windsor a bu yno am beth amser i'w chlodfori a'i hanfarwoli unwaith yn rhagor cyn ei dychwelyd i drysordy'r frenhiniaeth. Ni fu sôn amdani wedyn am tua phedair canrif, tan frenhiniaeth Siôr y Pumed yn 1911, pan fu pasiant y groes nawdd yn y Palas Grisial, Llundain, lle roedd cylchgrawn pabyddol y *Tablet* yn adrodd ei hanes.

Ar ôl hyn, yn 1912, fe ysgrifennodd Dr Hartwell Jones ei hanes yn ei lyfr *Celtic Britain and the Pilgrim Movement*, ac yn y flwyddyn 1932 cafwyd llawer mwy o'r hanes gan Edward Owen, M.A. yn y *Cymmrodor*, vol. xliii.

Yn 1943 cafwyd adroddiad gan y 'Society of the Friends of St. George Windsor' ac yno yn y capel mae darlun o groes nawdd tywysogion Gwynedd. Yno hefyd y gwelais innau y darlun a'm hysgogodd i wneud yr ymchwiliad hwn pan oeddwn yn ddarlithydd yn Ngholeg Rycotewood, Thame, ger Rhydychen, dros ddeugain mlynedd yn ôl bellach.

Pan ysgrifennodd y diweddar T. H. Parry-Williams hanes Croes Nawdd Tywysogion Gwynedd yn y llyfr *Y Llinyn Arian* (Urdd Gobaith Cymru, 1947), dewisodd ei destun yn ofalus iawn, a'i neges ddoe a heddiw i Gymru gyfan — ieuenctid, hynafiaid a'r plant — os y garreg o Scone yw etifeddiaeth yr Albanwyr, yna y Groes Nawdd hon yw etifeddiaeth y Cymry a llinyn arian ein cenedl o'r gorffennol i'r dyfodol. Hon hefyd yw'r ysbrydoliaeth am gydnabyddiaeth i hunanlywodraeth gyflawn.

* * * *

O ble daeth yr aur, y perlau a'r meini gwerthfawr oedd yn y cornblethau ac, yn ddiweddarach, y croesau nawdd hyn? Mae'r cychwyniad yn ddirgelwch ond wrth fynd yn ôl mewn hanes i'r flwyddyn 877 i gyfnod Rhodri Mawr, tywysog Cymru, a mab Merfyn Frych o'i wraig Nest. Roedd gan Rhodri ac Angharad ei wraig dri mab ac fe'u galwyd yn dywysogion taleithiol — Anarawd, Cadell a Merfyn.

Roedd gan Rhodri ddau fab o wraig arall, Tudwal gloff, a glwyfwyd ym mrwydr Conwy, ac Elis, a anfarwolodd ei hun ym mrwydr Rhyd-y-groes ger afon Hafren, ond y tri brawd cyntaf yw ein testun ni.

Yn y flwyddyn 877 roedd Rhodri Mawr yn hen ddyn ac yn tynnu am ei ddeg a phedwar ugain oed, pryd y penderfynodd rannu ei gyfoeth rhwng ei dri mab. Yn fuan ar ôl hyn, y flwyddyn ganlynol, lladdwyd Rhodri mewn brwydr â'r Saeson ar Ynys Môn.

*Anarawd* a ddechreuodd deyrnasu ar farwolaeth ei dad, oedd yr hynaf; hwn oedd tywysog cyntaf Aberffraw. Roedd wedi cael gan ei dad goron talaith, cornblethyn a holl diroedd Gwynedd ac Ynys Môn. Cafodd hefyd ei gydnabod fel Brenin Cymru gyfan.

*Cadell* oedd ei ail fab ac iddo ef y rhoddwyd hefyd goron talaith a chornblethyn, castell Dinefwr a deheubarth Cymru. Hwn oedd tad Hywel ap Cadell, neu Hywel Dda.

*Merfyn* oedd y trydydd mab ac iddo yntau rhoddwyd coron talaith, cornblethyn, castell Mathrafael a chanolbarth Cymru.

Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, yn ystod y cyfnod Cristnogol yng Nghymru, fe wnaed y cornblethau hyn yn dair croes ac fe'u galwyd yn Groesau Nawdd Tywysogion Cymru, er mai 'naid' oedd yr hen air am 'nawdd' y pryd hwnnw. Croes nawdd Anarawd oedd y fwyaf perlog a gwerthfawr gan mai ef a ddewiswyd yn frenin Cymru.

Trimeib Rhodri Mawr mewn tremyn —
eu caed
Cadell, Anarawd, Merfyn,
Rhannodd ef yr hyn oedd un
Rhoddiad holl Gymru rhyddyn.

Aeth coron tywysogaeth Llywelyn a Dafydd ap Gruffudd, yn ogystal â'r ddwy groes nawdd, i ddwylo Edward y Cyntaf yn y flwyddyn 1283. Roedd Llywelyn wedi'i fradychu a'i lofruddio gan Stephen de Francton yng Nghilmeri, Llanfair-ym-Muallt, ac fe fradychwyd Dafydd ei frawd iau gan Einion ap Ifor a Goronwy ap Dafydd. Fe'i daliwyd gan filwyr Edward y Cyntaf ger Bera Mawr, Llechwedduchaf, Abergwyngregyn ac fe'i dygwyd ef a'i deulu i gastell Rhuddlan lle roedd Edward y Cyntaf wedi ffoi o Gonwy pan glywodd am fuddugoliaeth Llywelyn yn y Felinheli a Moel-y-don.

Ar ôl ychydig ddyddiau bu Dafydd o flaen ei well yn yr Amwythig a dedfrydwyd ef i farwolaeth greulon iawn. Carcharwyd ei ddau fab ifanc, Owain a Llywelyn, a symudwyd

*(parhad ar dudalen 20)*